



## Moderneiddio Atwrneiaethau Arhosol Hydref 2021

### Cyflwyniad

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn gyfrifol am amddiffyn a hyrwyddo hawliau pobl hŷn sy'n byw yng Nghymru. Mae'r Comisiynydd yn craffu'n rheolaidd ar y polisiau ac arferion a all effeithio ar fywydau pobl hŷn.

Mae Atwrneiaethau Arhosol yn ffordd bwysig o amddiffyn a chynnal hawliau pobl hŷn; maen nhw'n cynnig amddiffyniad i bobl hŷn sydd angen cymorth i reoli eu materion ariannol ac yn galluogi pobl hŷn i gynllunio ar gyfer eu gofal yn y dyfodol mewn ffyrdd sy'n gyson â'u bywgraffiad a'u dewisiadau personol. Mae'n glir, serch hynny, nad ydy'r Atwrneiaeth Arhosol bob amser wedi cael ei defnyddio'n briodol. Mae hyn yn golygu bod rhai pobl hŷn wedi bod yn eithriadol o agored i gael eu cam-drin a'u hecsbloetio.

Mae'r Comisiynydd yn croesawu'r cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad ar 'Moderneiddio Atwrneiaethau Arhosol'<sup>1</sup>. Mae'r pwyntiau canlynol yn cael eu gwneud mewn ymateb i'r cynigion a amlinellir yn y ddogfen ymgynghori:

### Amddiffyn Pobl Hŷn rhag Cam-drin Ariannol

Mae'r cynnydd yn nifer yr achosion o salwch fel dementia<sup>2</sup> (sydd fwyaf cyffredin ymysg pobl hŷn<sup>3</sup>), yn golygu bod llawer o bobl hŷn yn wynebu'r dasg anodd o drefnu cymorth ychwanegol i reoli eu harian a / neu gynllunio ar gyfer eu hanghenion gofal i'r dyfodol.

Mae asedau ac arian yn hanfodol i les pobl hŷn am eu bod yn helpu i hybu annibyniaeth, yn rhoi synnwyr o ddiogelwch ac yn cynyddu'r dewis sydd ar gael o ran darpariaeth o wasanaethau<sup>4</sup>. Er mai bwriad Atwrneiaeth Arhosol yw cynnig lefel o amddiffyniad i roddwyr rhag cael eu cam-drin yn ariannol, mae ymchwil yn dangos bod y system Atwrneiaeth Arhosol bresennol wedi bod yn gyfyngedig o ran y graddau mae wedi cyflawni'r nod hwn<sup>5</sup>.

Wrth gyflawni ei swyddogaethau statudol, mae'r Comisiynydd yn cynnig cymorth a chefnogaeth uniongyrchol i bobl hŷn drwy ei Thîm Cyngor a Chymorth. Mae unigolion pryderus wedi cysylltu â thîm Cyngor a Chymorth y Comisiynydd i ofyn am help mewn sefyllfaoedd lle maen nhw'n credu bod atwrnai yn ecsbloetio person hŷn er budd ariannol. Felly, mae cydnabod yr angen i gryfhau'r gweithdrefnau diogelu yn yr ymgynghoriad yn bwysig ac yn rhywbeth i'w groesawu. Yn benodol, y potensial i gynyddu swyddogaeth

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Andrea Cooper, Arweinydd Diogelu

03442 640 670 // [andrea.cooper@olderpeoplewales.com](mailto:andrea.cooper@olderpeoplewales.com)

ymchwilio Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus; y bwriad i gynyddu nifer y bobl bosibl a hysbysir pan fydd Atwrneiaeth Arhosol yn cael ei chofrestru, a'r bwriad i ddiwygio'r system ar gyfer cyflwyno gwrthwynebiadau.

Fodd bynnag, mae angen rhagor o eglurder ynghylch y newidiadau posibl a gynigir yn yr ymgynghoriad i rôl tystion wrth roi Atwrneiaeth Arhosol ar waith. Er ein bod yn cydnabod cyfyngiadau presennol rôl tystion o ran diogelu, mae'n destun pryder bod y swyddogaeth newydd i dystion yn dibynnu i raddau helaeth ar ddulliau digidol (llofnod digidol). Mae'r ddogfen yn tynnu sylw at fanteision posibl digideiddio o fewn proses yr Atwrneiaeth Arhosol (caniatáu ar gyfer gwirio gwallau yn awtomatig; cynyddu effeithlonrwydd ac atal cynnydd posibl mewn costau) ond mae'n bwysig sylweddoli bod nifer sylweddol o bobl hŷn yng Nghymru nad ydynt yn defnyddio technoleg ddigidol. Dydy tua 37% o bobl hŷn (oddeutu chwarter miliwn o bobl) ddim yn gwneud defnydd personol o'r rhyngwrwd; does gan 41% o bobl dros 75 oed ddim mynediad i'r rhyngwrwd a does gan 55% o bobl hŷn sy'n byw ar eu pen eu hunain ddim cysylltiad â'r rhyngwrwd<sup>6</sup>. Mae'n bwysig sicrhau y cynigir gwasanaeth cyfartal i bobl hŷn nad ydynt yn defnyddio technoleg ddigidol ac sy'n dymuno rhoi Atwrneiaethau Arhosol ar waith drwy ddulliau traddodiadol ar bapur. Ni ddylai'r bobl hŷn hynny fod dan anfantais, a rhaid cynnwys lefelau diogelu cyfwerth i mewn i systemau gwneud ceisiadau ar bapur.

### **Gwella'r Broses o Wneud Cais**

Gall fod yn anodd rheoli materion ariannol ar ran rhywun arall, ac mae ymchwil yn dangos bod problemau'n codi weithiau nid oherwydd bod atwrneiod yn bwriadu cam-drin yn ariannol, ond am eu bod yn teimlo'n ddryslyd a ddim yn gwybod beth yw'r ffordd orau o fwrw ymlaen i wneud penderfyniadau ariannol ar ran y rhoddwr<sup>7</sup>. Dylai system Atwrneiaeth Arhosol gefnogol helpu i oresgyn rhai o'r anawsterau hyn drwy ddarparu cyngor a chymorth parhaus i atwrneiod wrth ymgymryd â'r rôl.

Fodd bynnag, mae unigolion wedi cysylltu â thîm Cyngor a Chymorth y Comisiynydd am eu bod yn teimlo bod y broses o wneud cais am Atwrneiaeth Arhosol yn gymhleth a'u bod yn poeni nad ydyn nhw wedi cwblhau'r broses yn gywir. Mae'n bwysig nad yw atwrneiod yn cael eu hannog i beidio â defnyddio'r system Atwrneiaeth Arhosol am eu bod yn ystyried ei bod yn rhy gymhleth. Mae gwybodaeth o ansawdd da yn bwysig er mwyn cynyddu dealltwriaeth o'r Atwrneiaeth Arhosol ac i sicrhau bod pawb sy'n gysylltiedig â'r mater yn gwbl ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau yn y broses. Fel y nodwyd yn flaenorol, mae angen i'r wybodaeth hon fod ar gael mewn amrywiaeth o fformatau ac nid ar-lein yn unig. Ar y cyd â Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus, mae'r Comisiynydd wedi paratoi canllaw hwylus i bobl hŷn ar wneud cais am Atwrneiaeth Arhosol<sup>8</sup>.

Rhaid gwneud penderfyniadau ynghylch cyfrifoldebau Atwrneiaeth Arhosol yn ofalus, ac mae angen rhoi amser i bobl hŷn ystyried yr opsiynau sy'n agored iddynt ac i ofyn

cwestiynau perthnasol i lywio eu penderfyniadau. Gall gwneud penderfyniadau ar gyfer Atwrneiaethau Arhosol 'Iechyd a Lles' fod yn arbennig o heriol ac efallai y bydd angen cynnal trafodaethau manwl â gweithwyr proffesiynol perthnasol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Wrth sicrhau bod digon o amser ar gael ar gyfer y broses o wneud penderfyniadau, mae'n bwysig bod ymdrechion yn cael eu gwneud i godi ymwybyddiaeth ynghylch atwrneiaethau arhosol (y broses, y manteision, y meysydd i'w hystyried). Dylid hyrwyddo'r broses Atwrneiaethau Arhosol mor eang â phosibl a thrwy amrywiaeth o sianeli (radio, papur newydd, gweithdai, ac ati). Fel y nodwyd yn y ddogfen, mae llawer o Atwrneiaethau Arhosol yn cael eu gwneud yn ystod argyfwng, sy'n lleihau'r amser sydd ar gael ar gyfer y mathau o drafodaethau sydd eu hangen wrth wneud penderfyniadau cadarn.

### **Hyfforddiant i Weithwyr Proffesiynol ym Maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol**

Mae gan weithwyr proffesiynol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol rôl bwysig o ran codi ymwybyddiaeth o'r broses Atwrneiaethau Arhosol ac o ran adnabod sefyllfaoedd lle mae cam-drin ariannol ac ecsbloetiaeth yn digwydd. Er mai bwriad moderneiddio'r broses Atwrneiaethau Arhosol yw sicrhau bod rhoddwyr yn cael eu hamddiffyn rhag cam-drin ariannol, rhaid darparu hyfforddiant perthnasol i staff rheng flaen hefyd.

Dylai'r hyfforddiant hwn fod â ffocws ataliol ac felly dylai ystyried nid yn unig y dangosyddion sy'n awgrymu bod cam-drin ariannol wedi digwydd ond dylai hefyd dynnu sylw at nodweddion sefyllfaoedd lle mae'r tebygolrwydd o gam-drin ariannol yn cynyddu. Mae nodweddion o'r fath yn cynnwys deinameg teulu cymhleth, diffyg cyfathrebu a chynllunio, a lle mae "teimlad o hawl i asedau"<sup>9</sup>.

Yn yr hyfforddiant hwn, dylid annog cyfranogwyr i bwysio a mesur manteision posibl a phwysigrwydd y broses Atwrneiaethau Arhosol. Pan gânt eu defnyddio'n briodol, mae Atwrneiaethau Arhosol yn cynnig ffordd bwysig i lawer o bobl hŷn ddal gafael ar ddewis a rheolaeth dros elfennau sylweddol o'u bywydau o ddydd i ddydd. Bydd gan y rhan fwyaf o bobl hŷn reswm da iawn dros eu dewis o atwrnai (rhai â gwybodaeth am eu hanes a'u bywgraffiad personol, er enghraifft, a fydd wedyn yn gallu helpu i sicrhau bod gofal yn cael ei ddarparu mewn ffordd bersonol a llawn urddas). Felly, mae'n destun pryder bod atwrneiod wedi cysylltu â thîm Cyngor a Chymorth y Comisiynydd i ddatgan bod eu lleisiau fel penderfynwyr yn cael eu hanwybyddu gan weithwyr proffesiynol yn ystod y broses o wneud penderfyniadau.

Mae hefyd yn bwysig sicrhau, wrth gwrs, nad yw'r pwyslais ar amddiffyn yn y broses Atwrneiaethau Barhaol yn dileu hawliau pobl hŷn i barhau i wneud penderfyniadau yn eu bywydau eu hunain cyhyd ag y bo modd. Rhaid i weithwyr proffesiynol ar y rheng flaen annog atwrneiod i ymgysylltu â phobl hŷn lle bynnag y bo modd er mwyn annog eu cyfraniad wrth wneud penderfyniadau am eu harian neu iechyd a lles.

Rhoi terfyn ar gam-drin pobl hŷn a sicrhau bod hawliau pobl hŷn yn cael eu cynnal ydy dwy o brif flaenoriaethau'r Comisiynydd. Pan gaiff ei defnyddio'n briodol, mae'r Atwrneiaeth Arhosol yn hanfodol ar gyfer cyflawni'r ddau amcan. Gobeithir y bydd y materion a godir yn y papur hwn yn ddefnyddiol o ran cryfhau'r mecanweithiau diogelu sydd i'w cynnwys yn y broses Atwrneiaeth Arhosol yn y dyfodol.

---

<sup>1</sup> Llywodraeth y DU. (2021). Moderneiddio Atwrneiaethau Arhosol. Ar gael ar:

<https://www.gov.uk/government/consultations/modernising-lasting-powers-of-attorney>

<sup>2</sup> Cymdeithas Alzheimer's. (2017). Ffeithiau a Ffigurau ar gyfer y Cyfryngau. Ar gael ar:

<https://www.alzheimers.org.uk/about-us/news-and-media/facts-media>

<sup>3</sup> Llywodraeth Cynulliad Cymru. (2011). Gweledigaeth Genedlaethol Cymru ar Dementia: Cymunedau Cefnogi Pobl â Dementia. Ar gael ar: [https://socialcare.wales/cms\\_assets/file-uploads/National-dementia-vision-for-Wales.pdf](https://socialcare.wales/cms_assets/file-uploads/National-dementia-vision-for-Wales.pdf)

<sup>4</sup> Tilse, C., Wilson, J., Rosenman, L., Morrison, D. a McCawley, A.L. (2011). Managing older people's money: assisted and substitute decision-making in residential aged-care. *Ageing and Society* (31), tud. 93-109.

<sup>5</sup> Ries, N.M. (2019). Enduring Powers of Attorney and Financial Exploitation of Older People: A Conceptual Analysis and Strategies for Prevention. *Journal of Aging and Social Policy*, tud. 1-18.

<sup>6</sup> Llywodraeth Cymru, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. (2019). Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2017- 2018. [casglu data]. UK Data Service. SN: 8390, <http://doi.org/10.5255/UKDA-SN-8390-1>

<sup>7</sup> Langan, J. a Means, R. (1996). Financial management and elderly people with dementia in the UK: As much a question of confusion as abuse? *Ageing and Society* (16), tud. 287-314.

<sup>8</sup> Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru. (2020). Atwrneiaeth Arhosol: Canllaw Hwylus i Bobl Hŷn Ar gael ar: [https://www.olderpeoplewales.com/Libraries/Uploads/LPA2020\\_e.sflb.ashx](https://www.olderpeoplewales.com/Libraries/Uploads/LPA2020_e.sflb.ashx)

<sup>9</sup> Ries, N.M. 2019. Enduring Powers of Attorney and Financial Exploitation of Older People: A Conceptual Analysis and Strategies for Prevention. *Journal of Aging and Social Policy*, tud. 1-18.

# Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn gwarchod ac yn hybu hawliau pobl hŷn ledled Cymru, gan graffu a dylanwadu ar amrywiaeth eang o bolisiau ac arferion er mwyn gwella eu bywydau. Mae hi'n darparu cymorth a chefnogaeth yn uniongyrchol i bobl hŷn trwy ei thîm Cyngor a Chymorth ac mae hi'n gweithio i rymuso pobl hŷn a sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed ac y gweithredir ar yr hyn y maen nhw'n ei ddweud. Mae rôl y Comisiynydd yn seiliedig ar gyfres unigryw o bwerau cyfreithiol i'w chefnogi i adolygu gwaith cyrff cyhoeddus a'u dal i gyfrif pan fo angen.

Mae'r Comisiynydd yn gweithredu i roi diwedd ar oedraniaeth a gwahaniaethu ar sail oedran; atal cam-drin pobl hŷn; a galluogi pawb i heneiddio'n dda.

**Mae'r Comisiynydd eisiau i Gymru fod y lle gorau yn y byd i heneiddio.**

## Sut i Gysylltu â'r Comisiynydd:

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru  
Adeiladau Cambrian  
Sgwâr Mount Stuart  
Caerdydd  
CF10 5FL

Ffôn: 03442 640 670

E-bost: [ask@olderpeoplewales.com](mailto:ask@olderpeoplewales.com)

Gwefan: [www.olderpeoplewales.com/cy/Home.aspx](http://www.olderpeoplewales.com/cy/Home.aspx)

Twitter: [@comisiwnphcymru](https://twitter.com/comisiwnphcymru)